| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **26 GORFFENNAF 2017** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO - TY GLYNDWR, BUNKHOUSE BAR AND CAFÉ, 1 STRYD Y CASTELL, CAERNARFON** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH RHEOLEIDDIO** |

## CAIS A DDERBYNIWYD

Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Tŷ Glyndwr, Bunkhouse , Bar and Café, 1 Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE oddi wrth Rhys Davies o'r un cyfeiriad. Mae'r eiddo yn far a chaffi newydd gydag ystafelloedd aros.

Gwneir y cais mewn perthynas â chyflenwi alcohol, cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio, perfformiad dawns a dangos ffilmiau yn achlysurol a lluniaeth hwyr y nos. Rhagwelir fod potensial y bydd dosbarthiadau salsa neu ddawns fel arall yn cael ei gynnal yn y dyfodol. Bwriedir cynnig cerddoriaeth fyw acwstig yn achlysurol, ac fe fydd yn cael ei gynnal yn y selar.
Deallir mai cefndirol yn unig y bydd cerddoriaeth wedi ei recordio. Gofynnir am yr hawl i weini lluniaeth hwyr o ran te a choffi i breswylwyr. Bwriedir gwerthu alcohol yn achlysurol yn hwyrach na'r amseroedd safonol a nodir ar y cais ar gyfer partïon preifat.
Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys. Oherwydd bod sylwadau sydd yn berthnasol i'r amcanion trwyddedu wedi ei wneud ar y cais; fe gyflwynir y cais er ystyriaeth yr Is - Bwyllgor hwn.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig.

| GWEITHGAREDDAU TRWYDDEDIG | TRWYDDED ARFAETHEDIG |
|---|---|
| **Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol** - Ar yr Eiddo/On the Premises | Dydd Llun/Monday 11:00-01:30<br>Dydd Mawrth/Tuesday 11:00-01:30<br>Dydd Mercher/Wednesday 11:00-01:30<br>Dydd Iau/Thursday 11:00-01:30<br>Dydd Gwener/Friday 11:00-01:30<br>Dydd Sadwrn/Saturday 11:00-01:30<br>Dydd Sul/Sunday 11:00-01:30 |
| **Cerddoriaeth Fyw/Live Music** - Dan Do/Indoors | Dydd Llun/Monday 11:00-00:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 11:00-00:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 11:00-00:00<br>Dydd Iau/Thursday 11:00-00:00<br>Dydd Gwener/Friday 11:00-00:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 11:00-00:00<br>Dydd Sul/Sunday 11:00-00:00 |
| **Cerddoriaeth wedi'i Recordio/Recorded Music** - Dan Do/Indoors | Dydd Llun/Monday 07:00-01:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 07:00-01:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 07:00-01:00 |

| | |
|---|---|
| | Dydd Iau/Thursday 07:00-01:00<br>Dydd Gwener/Friday 07:00-01:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 07:00-01:00<br>Dydd Sul/Sunday 07:00-01:00 |
| **Ffilmiau/Films** - Dan Do/Indoors | Dydd Llun/Monday 09:00-23:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 09:00-23:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 09:00-23:00<br>Dydd Iau/Thursday 09:00-23:00<br>Dydd Gwener/Friday 09:00-23:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 09:00-23:00<br>Dydd Sul/Sunday 09:00-23:00 |
| **Perfformiadau Dawns ac adloniant arall /Performances of Dance and other entertainment** Dan Do/Indoors | Dydd Llun/Monday 11:00-00:30<br>Dydd Mawrth/Tuesday 11:00-00:30<br>Dydd Mercher/Wednesday 11:00-00:30<br>Dydd Iau/Thursday 11:00-00:30<br>Dydd Gwener/Friday 11:00-00:30<br>Dydd Sadwrn/Saturday 11:00-00:30<br>Dydd Sul/Sunday 11:00-00:30 |
| **Darparu lluniaeth hwyr y nos -** o dan do | Dydd Llun/Monday 23:00-07:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 23:00-07:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 23:00-07:00<br>Dydd Iau/Thursday 23:00-07:00<br>Dydd Gwener/Friday 23:00-07:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 23:00-07:00<br>Dydd Sul/Sunday 23:00-07:00 |
| **Oriau agor a chau i'r Cyhoedd** | Dydd Llun/Monday 07:00-02:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 07:00-02:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 07:00-02:00<br>Dydd Iau/Thursday 07:00-02:00<br>Dydd Gwener/Friday 07:00-02:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 07:00-02:00<br>Dydd Sul/Sunday 07:00-02:00 |
| | |

**<u>Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu</u>**

- Bwriedir gweithredu polisi 'her 21' a darperir hyfforddiant i staff
- Bwriedir cynnal system camerâu teledu cylch cyfyng, gyda'r bwriad o gadw recordiad am 30 diwrnod a sicrhau fod recordiad ar gael i'r Heddlu neu unrhyw swyddog gydag awdurdodiad.
- Cadw cwrtil yr eiddo yn lan bob amser
- Mae'r adeilad yn cael ei ynysu rhag ymlediad sŵn
- Ni fydd ymddygiad treisgar yn cael ei oddef

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

**YMGYNGHORIAD**

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| **YMATEBION** | **SYLWADAU** |
|---|---|
| | |
| Preswylwyr cyfagos | 1 llythyr ac un e bost yn gwrthwynebu |
| Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Gwynedd | Sylwadau a chynnig amodau |

**Gwrthwynebiadau - Preswylwyr Cyfagos**

Cafwyd 1 llythyr ac 1 e bost yn gwrthwynebu'r oriau agor hwyr ac ar gyfer gwerthu alcohol ac adloniant ar sail yr amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus.

Nododd yr ymatebwyr eu bod mewn egwyddor yn gefnogol i'r datblygiad arfaethedig; ond yn bryderus am yr effaith y gallai oriau hwyr y cais ei gael , gyda phobl yn creu sŵn wrth adael yr eiddo yn hwyr yn y nos, ac wrth ymgynnull tu allan yn ysmygu. Mae un ymatebydd yn byw yn union drws nesaf i'r eiddo mewn teras o dai hynafol, ac yn bryderus am sŵn fydd yn treiddio drwy'r waliau fel canlyniad i adloniant.

Nodwyd hefyd fod sawl eiddo trwyddedig eisoes yn yr ardal a bod pryder y byddai eiddo trwyddedig arall yn cynyddu'r potensial o sŵn.

**Sylwadau Gwarchod y Cyhoedd**

Datganwyd pryderon gan swyddogion y Gwasanaeth parthed y potensial o niwsans sŵn oherwydd yr oriau hwyr arfaethedig ar gyfer gweithgareddau trwyddedig ar yr eiddo.

Yn dilyn trafodaethau gyda'r ymgeisydd, cytunwyd i weithredu i beidio caniatau mynediad i'r Cyhoedd nad ydynt yn breswylwyr ar ôl 23:30.
Cytunodd yr ymgeisydd hefyd i dderbyn amodau sŵn penodol fel rhan o amodau'r atodlen weithredol y drwydded.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.